Cofnodion cyfarfod rithiol 21 Gorffennaf 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Cynog Prys	
Casi Roberts	Llŷr Evans	
Nerys John		
Emyr Gareth		
Dafydd Huws	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol. Cafwyd Ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Iestyn Harris ac Elliw Williams.	
1.1	Cynllun cyfaill am fodoli yn y cefndir. Dim llawer o ddefnydd i'w weld ond credir bod pobl wedi gwneud cysylltiadau erbyn rŵan ac yn parhau yn defnyddio'r cysylltiadau hynny. Y Posteri i'w tynnu i ffwrdd ond cadw'r wybodaeth ymlaen ar y wefan fel neges gyffredinol yn lle gwybodaeth uniongyrchol cofid 19.	**DW/CR**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd gan y Cynghorydd Sir adroddiad uniongyrchol ar gyfer y cyfarfod ond byddai yn aros am y cyfarfod cyfan ac yn rhoi gwybodaeth fel bo angen.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Emyr Gareth – Eitem 10.0	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd adroddiad ariannol mis Mehefin. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir. Gwelwyd bod incwm ger y neuadd ar yr adroddiad ac eglurwyd bod arian wedi ei dderbyn oddi wrth y Clwb Bowlio am y tymor chwarae 2019-2020.	
4.2	Bydd cais furlough eto mis yma ar gyfer cyflog y lanhawraig.	
4.3	Cyflwynwyd ffigyrau ar gyfer Cyflogau Clercod y Cyngor Cymuned. Derbyniwyd hwy a bydd yr ôl daliad yn cael ei wneud ym mis Awst.	**CLERC**
4.4	Trwyddedu hen dir y rheilffordd – Nid yw'r clerc wedi derbyng wybodaeth gan Cyngor Gwynedd – Y Clerc i barhau i drio cael y wybodaeth.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Mehefin 2020 gyda'r newidiadau canlynol: 4.3 Penderfynwyd peidio â chefnogi. 7.6 Ystyried Jac Powel a 8.1 Atodi Adroddiad Llwybrau.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
	C20/0515/20/DT - 5 Gwylan Uchaf Y Felinheli - Estyniad Llawr Cyntaf a newidiadau. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	C20/0542/20/DT – Dwylan 26 Tai Gwelfor, Y Felinheli – codi adeilad gardd i'w defnyddio fel hafddu **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Pont ar draws Afon Heulyn - cafwyd eglurhad gan y	

	Cynghorydd Emyr Gareth bod y bont ddim yn cael eu hail hadeiladu oherwydd bodd y blwch yn caniatáu gofod i unrhyw lif fynd trwyddo rhag ei fod yn gorlifo i dai gerllaw, mae'r trefniant yma mewn llaw ers 2015. Mae hyn gyda chytundeb Cadw. Y national Trust sydd yn gyfrifol am y cwlfert gan ei fod ar ffordd Breifat. Mae angen tynnu'r lintel sydd wedi dymchwel beth bynnag oherwydd ei fod yn rhwystr. Mae afon Heulyn yn brif afon ac felly yn gyfrifoldeb i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r digwyddiad wedi ei adrodd at CNC a gobeithir cael ymateb ganddynt faes o law.	
7.2	Gorchymyn gwahardd Trafnidiaeth - Lon Penscoins Hydref 1af, 2020 - Gwybodaeth ynglŷn ag ail-wynebu'r ffordd.	
7.3	Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thorri gwair o fewn y gymuned. Mae toriad wedi bod a'r gwair heb ei godi. Dywedodd y Clerc ei bod wedi trio a thrio cysylltu â'r Swyddog Geraint Hughes a dim wedi cael unrhyw ymateb. Dywedodd y Cynghorydd Sir i'r Clerc gysylltu â Steffan Jones os nad oedd unrhyw ymateb yn dod i law a byddai ef hefyd yn cysylltu â fo. Mae gwair y Cae Chwarae ar Lan y Môr angen ei dorri. Cafwyd gwybodaeth bod y gwaith ddim yn amharu a defnydd y cae chwarae. Roedd Llawer yn defnyddio'r cae chwarae yn y Wern.	
7.4	Arolwg Newidiadau i Ddeddfwriaeth Ffyrdd - cyfyngiadau 20 m.y.a.. Roedd y Cyngor yn gytûn i gefnogi'r datblygiad hwn.	
7.5	Cyfyngiad Parcio - Ffordd Caernarfon ger Cwrt Menai - Roedd y Cyngor yn gytûn i gefnogi'r cyfyngiad hwn.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Cafwyd adroddiad bod japaneese knotweed yn tyfu ar dir ochr y Lon Las – Y Clerc i anfon y wybodaeth yma at y Swyddog priodol.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Cafwyd gwybodaeth bod biniau compost y fynwent yn cael ei ddefnyddio ar gyfer bob math o ddeunyddiau. Roedd y Cynghorydd Nerys John wedi rhoi cynnig i'w glirio ond mae'r gwaith yn drwm. Mae'r biniau yn llawn o bridd sydd angen ei symud. Cynigwyd ac eiliwyd bod y Clerc yn cysylltu â'r contractwr torri gwair i edrych os byddai yn gallu helpu a'r mater yma.	**CLERC**
10.0	**PROSIECTAU**	
	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad ar y cyfarfod rhwng Peirannau prosiect Lan y Môr a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Roedd angen i'r Cyngor Cymuned ystyried defnyddiau i orffen top y wal. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd argymell bod Cyngor Gwynedd yn ceisio cadw at eu cynllun gwreiddiol o slabiau llechi a bod llechi riven yn cael eu hystyried lle bo costau yn factor. Derbyniwyd byddai cerrig calch ar ffurf castell yn	

	dderbyniol a gofynnwyd I CG ystyried ffens ar ben y wal ger y maes chwarae gan y buasai symud y ffens bresennol at y wal yn creu problem hefo gwair na ellir ei dorri.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cyflwynwyd adroddiad llafar ar asesiad risg cofid 19 ar gyfer y neuadd. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams nad oedd angen symud yn sydyn oherwydd nid oedd gweithgareddau arferol y neuadd yn cychwyn cyn mis Medi. Dywedodd y Cynghorydd y bydd yn edrych ar yr asesiad risg dros y mis nesaf gyda'r Clerc er mwyn cael symud ymlaen i ail agor y neuadd.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
	Dywedodd y Cynghorydd Sir bod plotiau ar werth yn y Marina a bod hysbysiad yn cyfeirio eu bod mewn "gated Community" nid yw hyn yn gywir oherwydd mae llwybr yr arfordir yn parhau i fod ar y lleoliad hwn. Hefyd dywedodd bod cwynion wedi cynyddu ar draws y cyfnod clo yn enwedig ar bobl sydd wedi dod i'r ardal i aros yn eu heiddo gwyliau ac ail gartrefi.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:15	
Llofnod:		**Dyddiad:**